# BWRDD CROESO CYMRU

## ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON AM Y FLWYDDYN HYD AT 31 MAWRTH 2006

## CYNNWYS


| | | TUD |
|---|---|---|
| 1. | **ADRODDIAD BLYNYDDOL** | **1** |
| 2. | **DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU** | **6** |
| 3. | **DATGANIAD AR REOLAETH ARIANNOL FEWNOL** | **7** |
| 4 | **TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU** | **8** |
| 5. | **CYFRIF INCWM A GWARIANT**<br>am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 | **10** |
| 6. | **DATGANIAD O'R HOLL ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG** | **11** |
| 7. | **MANTOLEN**<br>ar 31 Mawrth 2006 | **12** |
| 8. | **DATGANIAD LLIF ARIAN**<br>am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 | **13** |
| 9. | **NODIADAU I'R CYFRIFON** | **14 - 28** |

**BWRDD CROESO CYMRU**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

**31 MAWRTH 2006**

## CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

### 1. Cefndir Statudol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006

Sefydlwyd Bwrdd Croeso Cymru dan Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 gyda'r swyddogaethau canlynol:-

(a) Annog pobl i ymweld â Chymru ac annog pobl sy'n byw yng Nghymru i fynd ar eu gwyliau yno; ac
(b) Annog darparu a gwella amwynderau a chyfleusterau twristiaeth yng Nghymru.

Hefyd rhoddwyd y swyddogaeth o hyrwyddo Cymru dramor i'r Bwrdd gan Ddeddf Twristiaeth (Hyrwyddo Dramor) (Cymru) 1992.

Paratowyd y cyfriflenni ar ffurf a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys ac yn unol ag adran 6(I) Deddf Datblygu Twristiaeth 1969. Gellir cael copi o'r Cyfarwyddyd o swyddfa'r Cynulliad yn Nhŷ Brunel, 2 Heol Fitzalan, Caerdydd CF24 0UY

## Arolwg o Weithgareddau a Datblygiadau

Yn ystod 2005/2006 parhaodd Bwrdd Croeso Cymru i ganolbwyntio ar gyflawni yn erbyn ei strategaeth a gweithgaredd arfaethedig, fel yr amlinellwyd yn Cyflawni ein Potensial, y Cynllun Corfforaethol ac yn erbyn cefndir strategol strategaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru.

Yn dilyn cyhoeddiad Prif Weinidog Cymru ar 14 Gorffennaf 2004 bod swyddogaethau Bwrdd Croeso Cymru i gael eu hintegreiddio i waith Llywodraeth Cynulliad Cymru, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Bwrdd Croeso i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Ebrill 2006 a diddymwyd y Bwrdd.

## Y rhan y mae cyflogeion yn ei chwarae

Cyfarfu Cyngor Whitley Bwrdd Croeso Cymru (Cyd-staff), sydd â'r amcan o gysoni cysylltiadau rhwng Bwrdd Croeso Cymru a'i gyflogeion, 6 gwaith yn ystod y flwyddyn.

Yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol yw undeb llafur cydnabyddedig y Bwrdd.

Seilir polisi'r Bwrdd ar recriwtio ar allu ymgeisydd i gyflawni'r gwaith. Rhoddir ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am gyflogaeth gan bobl anabl pan fydd y sgiliau a'r galluoedd priodol ganddynt i gyflawni'r gwaith. Pe baent yn mynd yn anabl yn ystod y gyflogaeth, byddai'r Bwrdd yn gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i waith arall iddynt a sicrhau bod ailhyfforddiant digonol ar gael iddynt a chyfleusterau i ddatblygu gyrfa. Parhaodd y Fenter Cyflog Cyfartal fel rhan o Ddyfarniad Tâl y Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

**Aelodau'r Bwrdd**

Aelodau'r Bwrdd a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn oedd:

| Enw | Hyd Contract |
|---|---|
| Philip Evans C.B.E. (penodwyd yn Gadeirydd ar 1 Ebrill 2000) | 11 Rhagfyr 1998 i 31 Mawrth 2006 |
| Ieuan Evans M.B.E. | 20 Chwefror 2002 i 31 Mawrth 2006 |
| Peter Hands | 21 Mai 2001 i 31 Mawrth 2006 * |
| Carys Howell | 21 Mai 2001 i 31 Mawrth 2006 * |
| Christine Lewis O.B.E. | 1 Awst 2000 i 31 Mawrth 2006 * |
| Dr Terry Stevens | 1 Awst 2000 i 31 Mawrth 2006 * |

* Daeth y contractau hyn i ben yn gynnar wrth i'r Bwrdd uno â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Ebrill 2006.

Mae cofrestr o fuddiannau'r aelodau ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfa'r Cynulliad, Tŷ Brunel, 2 Heol Fitzalan, Caerdydd CF24 0UY.

**Rhwymedigaethau Pensiwn**

Mae manylion am drefniadau a rhwymedigaethau pensiwn yn yr Adroddiad Taliadau (isod) a Nodiadau 1(h) a 5(b) y datganiadau ariannol amgaeedig.

**Polisi Talu Credydwyr**

Nod Bwrdd Croeso Cymru yw talu o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb neu gais dilys arall am daliad. Mae'r Bwrdd yn barnu, wrth gadw at egwyddorion y Cod Gweithdrefn Talu Gwell, bod hyn wedi ei gyflawni ar gyfer 78% o bob taliad a wnaed yn 2005/2006 (2004/2005 -56%).

**Yr Ewro**

Er bod Bwrdd Croeso Cymru wedi cynghori'r diwydiant twristiaeth ynglŷn â'r ffaith y gall y DU ymuno ag arian sengl, nid yw'r Bwrdd eto wedi gwario unrhyw beth parthed y digwyddiad hwn.

**Archwiliad**

Archwilir cyfrifon Bwrdd Croeso Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â Deddf Datblygu Twristiaeth 1969. Cydnabyddiaeth yr archwiliwr ar gyfer y flwyddyn am y gwaith archwilio oedd £27,000 (2004/2005 : £27,000). Yn ogystal, fe dderbyniont £15,000 (2004/2005 : £37,000) am wasanaethau eraill, sef darparu gwaith sicrwydd ychwanegol ac archwilio ceisiadau UE.

Rwy'n cadarnhau, hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Bwrdd yn ymwybodol ohoni. Rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i ddod i wybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**SYLWADAU RHEOLWYR**

Roedd Bwrdd Croeso Cymru yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Cyfanswm yr arian a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn o 1 Ebrill 2005 hyd at 31 Mawrth 2006 oedd £27.8 miliwn. O'r swm hwn –

- roedd £19.1 miliwn yn gymorth grant craidd; gyda
- £4.2 miliwn ychwanegol ar gyfer prosiectau twristiaeth (Cymorth grant gan y Cynulliad ar gyfer buddsoddi cyfalaf); a
- £4.5 miliwn o gronfeydd y Ffordd i Ffyniant i gynorthwyo gyda phrosiectau arian cyfatebol yr UE.

Roedd gwariant yn £8,000 (2004/05 - £1,662,000) yn fwy na'r incwm a ddaeth o'r cronfeydd wrth gefn. Yr

unig symudiad arall i gronfeydd wrth gefn oedd cynnydd net o £94,000 (2004/05 - £76,000 cynnydd net) i'r cyfrif grant llywodraeth gohiriedig.

## Asedau sefydlog

Ac eithrio fel y nodwyd yn Nodyn 1(f), ym marn y Bwrdd nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad yr asedau sefydlog. Dangosir y rhain yn Nodiadau 8 a 9 i'r Cyfrifon.
Mae ychwanegiadau Asedau Sefydlog o £176,000 (2004/05 - £91,000) yn ymwneud yn bennaf â chaffaeliadau o galedwedd a meddalwedd TG.

## Busnes Hyfyw

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes hyfyw. Mae Nodyn 1 (b) y Cyfrifon yn rhoi gwybodaeth bellach am sail paratoi'r cyfrifon hyn yn dilyn diddymu'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2006 a throsglwyddo ei swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Dangosyddion Perfformiad

Yn ystod 2005 -2006 bu'n rhaid i Fwrdd Croeso Cymru wynebu newid pwysig yn ei strwythur. Ni pharodd yr ansicrwydd yn hir gan fod y Bwrdd yn gwybod fod newid yn golygu cynnydd. Roedd y penderfyniad i ateb yr her a pharhau i arloesi yn cael ei adlewyrchu gan y gwaith ar lawr gwlad, ymysg y busnesau sy'n gwella'n barhaus ac yn rhoi Cymru ar y map.

Er ein bod yn dal i aros am ganlyniadau terfynol UKTS am 2005, mae'r rhagolygon yn gadarnhaol i Gymru. Cafwyd perfformiad cadarnhaol eto ar y llwyfan rhyngwladol; mae canlyniadau dros dro Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) 2005 yn dangos bod ymwelwyr tramor wedi gwneud tua 960,000 taith i Gymru gan wario £305 miliwn. Dengys Arolygon Defnydd y Bwrdd Croeso fod perfformiad 2005 yn gadarn gyda defnydd gwlâu gwestai a llefydd gwely a brecwast ar gyfartaledd yr un peth â 2004.

Mae'r cyntaf o gyfres o bum arolwg o weithredwyr y diwydiant twristiaeth gydol y flwyddyn wedi dangos fod bron i dri o bob pedwar gweithredwr (74%) yn teimlo'n hyderus (45%) neu'n hyderus iawn (29%) am dymor y Gwanwyn a'r Pasg. Roedd bron yr un gyfran o ymatebwyr (73%) hefyd yn dweud eu bod wedi derbyn yr un nifer o ymwelwyr neu westeion (45%) neu fwy (28%) dros gyfnod y Nadolig/Flwyddyn Newydd o gymharu â'r llynedd. Dangosodd yr ail arolwg o 219 cwmni, a gynhaliwyd ar 18 a 19 Ebrill, fod 81 y cant o'r rhai a holwyd yn honni eu bod wedi cael cymaint neu fwy o ymwelwyr na Phasg y flwyddyn cynt - gyda 36 y cant yn dweud fod y ffigurau'n uwch a 45 y cant yn dweud eu bod wedi aros ar yr un lefel. Roedd y trosiant yn cyd-fynd â nifer yr ymwelwyr gan fod 40 y cant o weithredwyr yn dweud ei fod yn uwch na'r llynedd tra bod 41 y cant yn honni bod y trosiant yr un fath â throsiant Pasg y llynedd.

Yn ystod 2005-06 parhaodd y Bwrdd Croeso i adeiladu ar y cryfderau cystadleuol sy'n bodoli yng Nghymru trwy annog buddsoddiad mewn cyfleusterau twristiaeth newydd a gwell i ddiwallu anghenion newidiol y farchnad. Yn ystod 2005-2006, dyrannodd y Bwrdd Croeso £11.3 miliwn i 111 prosiect unigol trwy ei gynllun cymorth buddsoddi, gan gynhyrchu cyfanswm o £68.4 miliwn o fuddsoddiad (£33.2 miliwn o'r sector preifat) a chreu neu ddiogelu 900 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Roedd y prosiectau a gynorthwywyd yn amrywiol ac wedi'u dosbarthu'n ddaearol trwy Gymru, gyda 31% yn y De-orllewin, 22% yn y De-ddwyrain, 21% yn y Canolbarth a 26% yn y Gogledd.

Yn ystod 2005/06 parhaodd y Bwrdd Croeso i ddatblygu'r ymgyrch lwyddiannus, Mawredd Mawr, gyda chyfanswm o 511,000 o ymatebion uniongyrchol i ymgyrch 2005 yn erbyn targed o 490,000. Cynyddodd ymwybyddiaeth ddigymell o hysbysebion o 6% i gyfartaledd cyffredinol o 9% ac o 6% i 11% ar gyfer ein cynulleidfa darged allweddol. Roedd gwariant ymwelwyr ychwanegol dros dro ar gyfer 2005 yn £90 miliwn, a gynhyrchwyd gan yr ymgyrch gydag elw cyfwerth ar fuddsoddiad o £49:1.

Parhaodd y Bwrdd Croeso i weithio mewn partneriaeth â VisitBritain i hyrwyddo Cymru i farchnadoedd twristaidd tramor. Cynhaliwyd ymgyrchoedd ym marchnadoedd blaenoriaeth Ewrop sef yr Almaen, Ffrainc a'r Iseldiroedd, yn ystod gwanwyn 2006.

**ADRODDIAD CYDNABYDDIAETHAU**

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd ddatgelu'r manylion canlynol parthed uwch staff â'r awdurdod neu'r cyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli ei brif weithgareddau – *

| | 2004/2005 Cyflog | 2004/2005 Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2005 | GTCA (ii) ar 31 Mawrth 2004 | GTCA ar 31 Mawrth 2005 | 2004/2005 Cynnydd Gwirioneddol mewn GTCA |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Jonathan Jones<br>*PRIF WEITHREDWR* | 90 - 95 | 0 – 2.5 | **(i)** 45 - 50 | 575 | 727 | 21 |
| Roger Pride<br>*CYFARWYDDWR MARCHNATA* | 60 - 65 | 0 – 2.5 | 20 - 25 | 227 | 310 | 18 |
| Steve Webb<br>*CYFARWYDDWR STRATEGAETH* | 60 - 65 | 0 – 2.5 | 30 – 35 | 456 | 581 | 23 |
| Geraint James<br>*CYFARWYDDWR CYLLID AC YSGRIFENNYDD Y BWRDD* | 55 - 60 | 0 – 2.5 | 10 - 15 | 105 | 148 | 9 |
| John Kingsford<br>*CYFARWYDDWR MASNACHOL* | 65 - 70 | 0 – 2.5 | 2.5 – 5.0 | 24 | 49 | 20 |
| *Lucy O'Donnell*<br>*CYFARWYDDWRAIG DATBLYGU* | *50 - 55* | 0 – 2.5 | 15 - 20 | 130 | 203 | 30 |

**(i)** Buddion i'w talu yn 65 oed

**(ii)** Roedd y Bwrdd yn rhan o Gynllun Pensiwn Byrddau Croeso Prydain a oedd yn darparu buddion pensiwn ac yswiriant bywyd i'r holl staff parhaol. Mae'n gynllun buddion diffiniedig wedi'i ariannu sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy terfynol. Mae'r asedau'n cael eu cadw gan y Cynllun Pensiwn dan gontract cronni arian gyda Prudential Assurance Company Cyfyngedig.
Gwerth Trosiannol Cyfatebol i Arian (GTCA) yw'r gwerth cyfalafol a asesir yn actiwaraidd o'r buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg benodol. Y buddion a werthusir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTCA yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu'n drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu'n drefniant ble mae'r aelod yn gadael y cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu hen gynllun. Mae'r cynnydd real mewn GTCA yn adlewyrchu'r cynnydd a ariannwyd gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a wnaed gan y gweithiwr cyflogedig (yn cynnwys gwerthu unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Yn y nodyn uchod sy'n ymwneud ag uwch staff, mae "Cyflog" yn cynnwys cyflog gros, tâl perfformiad neu fonysau, goramser, lwfansau recriwtio a chadw, ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei fod yn drethadwy yn y DU.

Cyflog y Prif Weithredwr yw cyflog gros o £88,867 a bonws nad yw wedi'i gyfuno o £4,283 (2004/2005 – cyflog gros o £86,700 a bonws nad oedd wedi'i gyfuno o £4,624). * Roedd yn gymwys am fonws perfformiad yn seiliedig ar dargedau a osodwyd gan y Bwrdd. O 1 Ionawr 2004 fe gyflogwyd y Prif Weithredwr gan y Bwrdd ar gontract o gyfnod diderfyn. Mae'n aelod cyffredin o gynllun pensiwn y Bwrdd.

Cytundebir y Cadeirydd i weithio 3 diwrnod yr wythnos. Mae'r manylion ar gyfer Philip Evans (i), a gyflogir ar gontract tymor sefydlog o 1 Ebrill 2000 hyd at 31 Mawrth 2003 (bellach wedi ei ymestyn i 31 Mawrth 2006) fel

a ganlyn:- *

| Cyflog a buddion | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2006 | GTCA ar 31 Mawrth 2005 | GTCA ar 31Mawrth 2006 | 2005/2006 Cynnydd gwirioneddol mewn GTCA |
|---|---|---|---|---|---|
| £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 40 – 45 | 0 – 2.5 | 0 –5 | 63 | 88 | 13 |

(i) Nid yw Mr Evans yn aelod o’r cynllun pensiwn ac mae ganddo drefniant pensiwn unigol “drwy gymhariaeth” fel y cytunwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae’r buddion yn daladwy gan Fwrdd Croeso Cymru ar derfyn y contract ar ôl 55 oed.

Mae Aelodau eraill y Bwrdd ar gontract i weithio isafswm o 2 ddiwrnod y mis ar gyflog nad yw’n bensiynadwy o £8,525 (2004/2005 - £8,317)*. Cynhwysir manylion Cyfnodau Cytundeb Aelodau’r Bwrdd yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

* caiff y wybodaeth hon ei harchwilio

Gareth Hall
Swyddog Cyfrifyddu

2 Awst 2006

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU**

O dan Adran 6(i) o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 mae'n ofynnol i Fwrdd Croeso Cymru baratoi cyfriflen ar ffurf a sail a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun teg a chywir o gyflwr materion y Bwrdd ar ddiwedd y flwyddyn a'i incwm a'i wariant a'i lif arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon hyn mae'n rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, gan gymhwyso polisïau cyfrifo addas ar sail gyson;

- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys fel y nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, gan ddatgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;

- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, onid yw'n amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd endid yn parhau i weithredu.

Diddymodd Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) (OS 2005/3225) 2005 y Bwrdd ar 1 Ebrill 2006 a rhoi'r cyfrifoldeb o baratoi'r cyfrif terfynol (2005-06) i'r Cynulliad.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penodi Cyfarwyddwr Menter, Arloesi a Rhwydweithiau'r Cynulliad fel Swyddog Cyfrifyddu Bwrdd Croeso Cymru. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra arian y cyhoedd a thros gadw cofnodion cywir, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

## DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

### Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy’n cefnogi’r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Bwrdd Croeso Cymru (Y Bwrdd), tra’n diogelu'r arian cyhoeddus a ddarperir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ac Asedau'r Bwrdd Croeso, yn unol â’r cyfrifoldebau a ddirprwywyd i mi drwy Gyfrifo’r Llywodraeth.

Mae fy swyddogaeth yn cynnwys trefniadau atebolrwydd â CCC sy’n golygu cyfarfodydd misol â’r Gweinidog Datblygu Economaidd a chyfarfodydd monitro chwarterol rhwng pob adran o’r Bwrdd ag Isadran Nawdd Polisi Economaidd CCC.

### Diben y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol y gall ddarparu yn hytrach na sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Mae’r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu’r prif risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Bwrdd Croeso, i werthuso’r tebygolrwydd o wireddu’r risgiau hynny a’r effaith os y’u gwireddir, ac i’w rheoli’n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae’r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r adroddiad a’r cyfrifon blynyddol, ac mae’n bodloni canllawiau’r Trysorlys.

### Gallu i ddelio â risg

Defnyddiwyd y prosesau canlynol i reoli risg yn y Bwrdd Croeso:

- Pennu cyfrifoldebau i adrannau ar gyfer rheoli’r peryglon a nodir;
- Parhau i ddatblygu cofrestr risg ledled y sefydliad trwy bwyllgor gwaith traws adrannol yn galluogi staff i reoli risg fel y bo’n addas i’w hawdurdod a’u dyletswyddau;
- Darparu arweiniad parhaus gan Archwilwyr Mewnol y Bwrdd Croeso i gynnwys arweiniad ac arfer gorau; a
- Phwyslais cynyddol ar Gynllunio Busnes yn cynnwys Cydlynu Rheoli Risg.

### Y fframwaith risg a rheolaeth

Sicrhaodd y Bwrdd Croeso bod datblygiadau yn mynd rhagddynt yn rheolaidd drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio, sy’n galluogi’r Bwrdd i bennu ei awch am risg. Yn ystod 2005-06 mae’r Bwrdd Croeso wedi parhau gyda’i broses cynllunio busnes sy’n ei alluogi i ymgorffori gweithdrefnau rheoli perygl yn ei raglenni. Bydd hyn yn cynnwys rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer derbyn ac adolygu adroddiadau gan holl ddeiliaid cyllidebau ar y camau y bwriadant eu cymryd i reoli’r risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb, gan gynnwys adroddiadau cynnydd ar brosiectau allweddol.

Mae gan y Bwrdd Croeso system sefydledig o amcanion, targedau a chostau rhaglenni ar gyfer pob un o’i brif adrannau a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. Caiff y targedau eu monitro drwy adroddiadau cyflawniad blynyddol a hanner blwyddyn a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhelir adolygiad parhaus o’r broses hon er mwyn gwella’r gwaith o bennu targedau a mesur perfformiad.

Mae’r Bwrdd Croeso yn cynnwys cyfranddalwyr allweddol mewn twristiaeth wrth gynnal ei weithgareddau a datblygu ei bolisïau. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat. Mae’r broses hon yn sicrhau bod y Bwrdd Croeso yn gallu rheoli risgiau ledled Cymru ac ar lefel ranbarthol.

### Arolwg o effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros arolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy arolwg o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi ei arwain gan waith yr archwilwyr mewnol ac uwch staff o fewn y Bwrdd sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Mae’r Bwrdd Croeso wedi sicrhau bod rheolaeth risg wedi ei chynnwys yn y broses cynllunio busnes ac mae’r Bwrdd wedi sicrhau cyfrifoldeb corfforaethol cyffredinol ar gyfer rheoli risg trwy osod y cyfrifoldeb yma o fewn yr Adran Strategaeth. Mae’r Pwyllgor Archwilio yn ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Busnes ym mhob cyfarfod. Mae’r Bwrdd Croeso yn caffael gwasanaethau archwilio mewnol o dan gontract gan Price Waterhouse Coopers, sy’n gweithredu i safonau a ddiffiniwyd yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Caiff gwaith archwilio mewnol ei lywio gan ddadansoddiad o’r risg y mae’r Bwrdd Croeso yn agored iddi, a seilir cynlluniau archwilio mewnol blynyddol ar y dadansoddiad hwn. Caiff y dadansoddiad o’r risg a’r cynlluniau archwilio mewnol eu cyflwyno gennyf fel y Swyddog Cyfrifyddu a bydd y Pwyllgor Archwilio a’r Bwrdd yn cytuno arnynt. Bob blwyddyn o leiaf, bydd Archwiliad Mewnol yn rhoi adroddiad i mi ar weithgaredd archwilio mewnol y Bwrdd Croeso. Mae’r adroddiad yn cynnwys eu barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Bwrdd Croeso.

**Gareth Hall**
Swyddog Cyfrifyddu — 2 Awst 2006

**TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Croeso Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006 dan Adran 6 (4) Deddf Datblygu Twristiaeth 1969. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Ariannol a'r Datganiad o Gyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd**

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 a chyfarwyddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a wnaed o dan y Ddeddf ac ar gyfer sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u nodi yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, a chyda Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Rwy'n cyflwyno fy marn ar i ba raddau mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a gwir ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaethau i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 a chyfarwyddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a wnaed o dan y Ddeddf. Rwyf hefyd yn rhoi fy marn ar i ba raddau y cafodd y gwariant a'r incwm eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn eich hysbysu os nad yw'r Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Bwrdd Croeso Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, os na dderbyniais yr holl wybodaeth a'r esboniadau angenrheidiol ar gyfer yr archwiliad, neu os na ddatgelwyd gwybodaeth a nodwyd gan awdurdodau perthnasol ynglŷn â thaliadau a thrafodion eraill.

Rwy'n adolygu a yw'r datganiad ar dudalen 7 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y Bwrdd â chanllawiau Trysorlys EM ar y Datganiad Rheolaeth Fewnol ac yn adrodd os nad yw yn cydymffurfio. Nid oes gofyn i mi ystyried a yw datganiadau'r Swyddog Cyfrifyddu ar reolaeth fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau, na ffurfio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol a gweithdrefnau risg a rheoli'r Bwrdd Croeso.

Rwy'n darllen y wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Mae'r wybodaeth arall yma'n cynnwys y Cyflwyniad a'r Cefndir, Sylwadau Rheolwyr a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaethau nad yw wedi'i harchwilio'n unig. Rwy'n ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os ydwyf yn canfod unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysonderau pwysig gyda'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

**Sail y farn archwilio**

Cynheliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth, ar sail prawf, sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaethau i gael ei harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Bwrdd, a gawsant eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais yr archwiliad i gael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen yn fy marn i er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i allu rhoi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaethau i'w harchwilio yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed yn sgil twyll neu gamgymeriad ac ym mhob cyd-destun perthnasol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn bûm hefyd yn gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y ffordd o gyflwyno gwybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaethau i'w

harchwilio.

**Busnes hyfyw**

Fel y nodir yn Nodyn 1 y cyfrifon, trosglwyddwyd eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd Croeso yn ôl eu gwerth ar y fantolen ar 31 Mawrth 2006 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, pan ddiddymwyd y Bwrdd. Dyma'r datganiadau ariannol olaf felly i gael eu paratoi ar ran y Bwrdd Croeso. Gan fod swyddogaethau'r Bwrdd yn mynd i barhau'n rhan o waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw ac rwyf wedi'u harchwilio ar y sail honno. Nid yw fy marn felly'n gymwysedig yn hyn o beth.

**Barn**

Yn fy marn i:

- rhydd y datganiadau ariannol ddarlun cywir a theg o gyflwr materion Bwrdd Croeso Cymru ar 31 Mawrth 2006 ac o'r diffyg am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaethau i gael ei harchwilio wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno; ac
- ym mhob ystyr berthnasol defnyddiwyd y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
9 Awst 2006

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA

## CYFRIF INCWM A GWARIANT

**Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006**

| | NODIADAU | 2005/2006 £000 | 2004/2005 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Cymorth Grant | 2a | 19,152 | 19,101 |
| Grant y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Prosiectau Twristiaeth | 3 | 2,692 | 3,055 |
| Cyllid Arall gan y Cynulliad Cenedlaethol | 2c | 5,970 | 6,070 |
| Rhyddhau Grant Wrth Gefn y Llywodraeth | 2b | 145 | 167 |
| Undeb Ewropeaidd | 17 | 11,195 | 7,874 |
| Incwm Arall | 4 | 2,286 | 2,014 |
| | | 41,440 | 38,281 |
| **Gwariant** | | | |
| Costau Staff | 5 | 3,700 | 3,376 |
| Taliadau gweithredol eraill | 6 | 23,050 | 22,291 |
| Cymorth Rhanbarthol | 7 | 3,700 | 3,725 |
| Grantiau i'r Diwydiant Twristiaeth | 3 | 10,998 | 10,550 |
| Cost dybiannol cyfalaf | | (55) | (30) |
| | | 41,393 | 39,912 |
| **Gwarged/(Diffyg) Gweithredol** | | 47 | (1,631) |
| Addasiad ar gyfer cost cyfalaf | | (55) | (30) |
| Colledion wrth waredu asedau sefydlog | | - | (1) |
| Adenillion grant o'r Diwydiant Twristiaeth | 11(ii) | 498 | 152 |
| Adenillion grant a dalwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 11 (ii) | (498) | (152) |
| Llog i'w Dderbyn | | 203 | 190 |
| Llog Taladwy | | (166) | (156) |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn treth** | | 29 | (1628) |
| Treth Gorfforaeth daladwy | | (37) | (34) |
| **Diffyg am y flwyddyn wedi'i drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn** | | (8) | (1,662) |
| **Datganiad o Symudiad ar Gronfeydd wrth Gefn** | | | |
| Gwarged argadwedig a ddygwyd ymlaen | | (1,755) | (93) |
| Diffyg am y flwyddyn | | (8) | (1,662) |
| **Diffyg argadwedig a gariwyd ymlaen** | | (1,763) | (1,755) |

Mae'r holl weithgareddau yn parhau.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 14 i 28 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**DATGANIAD O'R HOLL ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG**
**Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006**

| | 2005/2006<br>£000 | 2004/2005<br>£000 |
|---|---|---|
| Diffyg am y flwyddyn | (8) | (1,662) |
| Symudiad ar gronfa grant wrth gefn y llywodraeth | 94 | (76) |
| Cyfanswm yr enillion/(colledion) cydnabyddedig sy'n ymwneud â'r flwyddyn | 86 | (1,738) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 14 i 28 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**MANTOLEN**

**Ar 31 Mawrth 2006**

| | NODIADAU | 2006 £000 | 2005 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | |
| Asedau annirweddol | 8 | 82 | 23 |
| Asedau diriaethol | 9 | 161 | 126 |
| Benthyciadau gwarantedig | 10 | - | 98 |
| | | 243 | 247 |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Dyledwyr a rhagdaliadau | 11 | 4,991 | 4,806 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | 206 | 9,224 |
| | | 5,197 | 14,030 |
| **Credydwyr**: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 12a | (6,799) | (15,724) |
| **(Rhwymedigaethau)/Asedau Cyfredol net** | | (1,602) | (1,694) |
| **Cyfanswm Asedau Llai Rhwymedigaethau Cyfredol** | | (1,359) | (1,447) |
| **Credydwyr**: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 13 | - | (98) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 12b | (161) | (61) |
| **Cyfanswm Asedau llai'r Holl Rwymedigaethau** | | (1,520) | (1,606) |
| **Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | 20 | (1,763) | (1,755) |
| Cronfa Grant wrth Gefn y Llywodraeth | 2b | 243 | 149 |
| **Cronfeydd y Llywodraeth** | | (1,520) | (1,606) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 14 i 28 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Gareth Hall
Swyddog Cyfrifyddu

2 Awst 2006

**DATGANIAD LLIF ARIAN**
**Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006**

| | NODIADAU | 2005/2006 £000 | 2004/2005 £000 |
|---|---|---|---|
| Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol | 19 | (9,061) | 5,351 |
| Elw o fuddsoddi a gwasanaethau arian | 19 | 78 | 19 |
| Treth a dalwyd | 19 | (35) | (18) |
| Gwariant cyfalaf | 19 | (176) | (91) |
| Mewnlif/(all-lif) arian net cyn arian | | (9,194) | 5,261 |
| Ariannu | 19 | 176 | 91 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod | | (9,018) | 5,352 |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 14 i 28 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## NODIADAU I'R CYFRIFON

### 1. DATGANIAD O'R POLISÏAU CYFRIFO

**(a) Confensiwn Cyfrifo**
Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a'r safonau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo cyn belled ag y bo'r gofynion hynny yn briodol. Nid yw'r Asedau Sefydlog a'r stociau wedi eu hail-brisio (Nodyn 1(f)), gan nad oedd yr addasiadau, ym marn y Bwrdd, a oedd yn deillio o'r prisiad yn berthnasol i ddeall y cyfrifon.

**(b) Sail Paratoi'r Cyfrifon**
Diddymwyd Bwrdd Croeso Cymru ar 1 Ebrill 2006 gan OS 2005/3225: Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005. Ar y dyddiad hwnnw, trosglwyddwyd yr eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd Croeso ar 31 Mawrth 2006 i ofal Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gan fod swyddogaethau'r Bwrdd Croeso yn parhau fel rhan o'r Cynulliad Cenedlaethol, roedd y Swyddog Cyfrifyddu o'r farn ei bod yn briodol paratoi'r datganiadau ariannol hyn fel rhai busnes hyfyw.

**(c) Trethiant**
**(i) TAW**
Mae incwm o weithgareddau yn cynrychioli swm anfoneb y nwyddau a werthwyd neu'r gwasanaethau a ddarparwyd yn glir o ostyngiadau masnach a TAW. Mae gwariant yn cynrychioli swm y nwyddau a'r gwasanaethau a brynwyd yn glir o ostyngiadau a TAW adenilladwy.
**(ii) Treth Gorfforaeth**
Cyfrifir Treth Gorfforaeth y DU yn ôl 19% o'r llog derbyniadwy.

**(d) Cymorth Grant**
Caiff cymorth grant a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwariant gweithredu ei gredydu i incwm. Caiff cymorth grant i'w dderbyn ar gyfer gwariant cyfalaf ei gredydu i gyfrif Cronfa Grant Wrth Gefn y Llywodraeth a'i ryddhau i'r Cyfrif Incwm a Gwariant dros fywydau defnyddiol amcangyfrifedig yr Asedau sefydlog perthnasol.

**(e) Llog i'w Dderbyn a Llog sy'n Daladwy**
Mae Llog i'w Dderbyn yn cynnwys llog ar fenthyciadau, a gaiff ei gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant wrth dderbyn taliad oherwydd natur ansicr yr incwm hwn a chyfraddau llog banc. Mae llog i'w dderbyn yn daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn glir o dreth gorfforaeth.

**(f) Asedau Annirweddol a Diriaethol**
Trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol yw'r asedau sefydlog annirweddol. Amorteiddir hwy dros dair blynedd.

Heblaw am ei safleoedd prydles fer, mae'r Bwrdd Croeso wedi prisio ei holl asedau sefydlog ar gost hanesyddol gan nad yw unrhyw addasiadau ail-brisio'n berthnasol, ym marn y Bwrdd. Mae'r safle ar brydles ym Maes y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd yn cael eu hail-brisio'n broffesiynol bob tair blynedd ac mae'r Fantolen yn adlewyrchu'r prisiad diweddaraf.

Darperir dibrisiant ar bob ased sefydlog diriaethol ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu'r gost llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig pob ased yn gyson dros fywyd defnyddiol disgwyliedig fel a ganlyn:-

| | | |
|---|---|---|
| Adeiladau prydles fer | - | dros dymor y brydles |
| Gosodiadau, ffitiadau ac offer swyddfa | | |
| Gosodiadau a ffitiadau | - | dros 10 mlynedd |
| Offer swyddfa | - | dros 6 blynedd |
| Cyfrifiaduron | - | dros 3 blynedd |

Darperir dibrisiant blwyddyn lawn yn y flwyddyn gaffael. Ni ddarperir dibrisiant yn y flwyddyn waredu.

### 1. DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFO (PARHAD)

Y terfyn isaf ar gyfer cyfalafu asedau diriaethol ac annirweddol yw £1,000.

**(g) Incwm Grant**
Caiff grantiau a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Prosiectau Twristiaeth eu credydu i incwm y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi. Credydir incwm yr UE yn y flwyddyn sy'n berthnasol i'r gwariant cysylltiedig. Cyfrifir am grantiau taladwy yn unol â'r rhesymeg fod rhwymedigaeth yn codi pan fydd derbynnydd y grant yn cynnal y gweithgaredd neu fel arall yn bodloni meini prawf hawl i'r grant. Sylfaen y symiau yn ymwneud ag incwm UE sydd wedi ei gynnwys o fewn dyledwyr yw ceisiadau a gyflwynir i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar 31 Mawrth 2006. Cyfrifir am addasiadau sy'n deillio trwy arholi'r ceisiadau hyn yng nghyfnodau cyfrifo'r dyfodol.

**(h) Benthyciadau a Grantiau Adenilladwy**
Polisi'r Bwrdd yw adennill benthyciadau a grantiau i brosiectau twristiaeth pan gaiff yr amodau sy'n gysylltiedig â hwy eu torri ac ni ellir gweithredu unrhyw amodau amgen. Caiff adenillion eu dwyn i gyfrif pan gânt eu derbyn a'u hanfon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**(i) Pensiynau**
Caiff cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Byrddau Croeso Prydain eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant er mwyn taenu cost pensiynau dros fywyd gwaith y cyflogeion. Codir cost ariannu ymddeoliadau cynnar a phensiynau ad-daliol ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn pan fyddant yn codi.

**(j) Prydlesi Gweithredu**
Codir rhent prydlesi gweithredu ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn y maent yn gysylltiedig â hi.

**(k) Cronfeydd Net**
Mae Cronfeydd Net at ddibenion y Datganiad Llif Arian yn cynrychioli balansau arian parod a ddelir yn y banc, mân arian a gweddill mesurydd postio.

**(l) Cost Dybiannol Cyfalaf**
Gwneir addasiad cyfalaf tybiannol sy'n adlewyrchu'r gost cyfalaf a ddefnyddiwyd yn erbyn gwariant a'i gyfrifo ar 3.5% o werth cyfartalog Cyfanswm yr Asedau llai'r Holl Rwymedigaethau.

2a **CYMORTH GRANT**

| | 2005/2006 £000 | 2004/2005 £000 |
|---|---|---|
| Cymorth Grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 19,252 | 19,192 |
| Arian ychwanegol a dderbyniwyd ar gyfer gwariant cyfalaf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 76 | - |
| Swm a ddefnyddiwyd mewn perthynas â gwariant cyfalaf | (176) | (91) |
| Swm a gredydwyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant | 19,152 | 19,101 |

2b **CRONFA GRANT WRTH GEFN Y LLYWODRAETH**

| | | |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 149 | 225 |
| Swm i'r dderbyn yn ystod y flwyddyn | 176 | 91 |
| Swm a gredydwyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant | (145) | (167) |
| Ailbrisio Tir ac Adeiladau | 63 | - |
| Ar 31 Mawrth | 243 | 149 |

2c **CYLLID ARALL GAN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

| | | |
|---|---|---|
| Rhaglenni Datblygu | | |
| Adfer Cefn Gwlad | 4 | 1,753 |
| Ffordd i Ffyniant - grantiau | 1,935 | 1,574 |
| Cronfeydd eraill a glustnodwyd | 1,482 | 358 |
| | 3,421 | 3,685 |
| Ffordd i Ffyniant - incwm | 74 | 21 |
| | 3,495 | 3,706 |
| Rhaglenni Marchnata | | |
| Ffordd i Ffyniant | 2,475 | 2,064 |
| Cronfeydd eraill o glustnodwyd | - | 300 |
| | 2,475 | 2,364 |
| Cyllid arall gan y Cynulliad Cenedlaethol | 5,970 | 6,070 |

## 3. PROSIECTAU TWRISTIAETH

| | NODYN | 2005/2006 £000 | 2004/2005 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | | | |
| Grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | | 2,692 | 3,055 |
| Cyllid arall gan y Cynulliad Cenedlaethol | 2c | 3,421 | 3,685 |
| Undeb Ewropeaidd | 17 | 4,885 | 3,810 |
| Incwm o bob ffynhonnell | | 10,998 | 10,550 |
| Gwariant | | | |
| Grantiau a roddwyd i'r Diwydiant Twristiaeth (a ran ariannwyd gan yr UE) | | 6,820 | 5,382 |
| Cynullun ReAct | | 3 | 2 |
| Cynllun Adfywio | | 1 | 1,753 |
| Prosiectau a glustnodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | | 1,482 | 358 |
| Grantiau eraill a gyllidwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | | 2,692 | 3,055 |
| Grantiau i'r Diwydiant Twristiaeth o dan Ran 1 y Ddeddf | | 10,998 | 10,550 |

## 4. INCWM ARALL

Gellir priodoli incwm i'r gweithgareddau canlynol:-

| | 2005/2006 £000 | 2004/2005 £000 |
|---|---|---|
| Gwerthiant cyhoeddiadau | 3 | 12 |
| Gwerthu hysbysebion | 442 | 856 |
| Taliadau am wasanaethau | 1,841 | 1,146 |
| | 2,286 | 2,014 |

5. 5. **COSTAU STAFF**

**[a] CYFLOGAU**
**Cyflogau, Costau Nawdd Cymdeithasol a Chyfraniadau Pensiwn**

| | 2005/2006 | | | 2004/2005 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Costau Gweithredu | Rhaglenni (Nodiadau 6,7) | Cyfanswm | Costau Gweithredu | Rhaglenni (Nodiadau 6,7) | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogeion y Bwrdd - cyflogau | 3,119 | 1,570 | 4,689 | 2,946 | 1,570 | 4,516 |
| Aelodau'r Bwrdd - cyflogau | 97 | - | 97 | 105 | - | 105 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 267 | 125 | 392 | 246 | 125 | 371 |
| Cyfraniadau Pensiwn [Nodyn 5(b)] | 77 | 36 | 113 | 31 | 12 | 43 |
| Newid ar ddarpariaeth pensiwn Y Cadeirydd [Nodyn 12b] | 27 | - | 27 | 15 | - | 15 |
| | 3,587 | 1,731 | 5,318 | 3,343 | 1,707 | 5,050 |
| Costau asiantaeth gyflogi | 113 | 103 | 216 | 33 | 128 | 161 |
| | 3,700 | 1,834 | 5,534 | 3,376 | 1,835 | 5,211 |

**Cydnabyddiaethau Aelodau'r Bwrdd** a geir yn yr uchod:-

| | 2005/06 | 2004/05 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyflog y Cadeirydd | 45 | 44 |
| Aelodau Eraill y Bwrdd | 43 | 42 |
| Pensiwn ar gyfer cyn Gadeiryddion | 4 | 10 |
| Cytundeb talu TWE | 5 | 9 |
| | 97 | 105 |

Mae cydnabyddiaethau'r staff yn cynnwys buddion o £4,723 a dalwyd o dan Gytundeb Talu TWE mewn perthynas â 2004/2005 (2004/2005: Talwyd £9,301 mewn perthynas â 2003/2004).

**Dyma'r nifer cyfartalog misol o weithwyr cyflogedig cyfwerth â llawn amser yn ystod y flwyddyn:-**

| | 2005/2006 | 2004/2005 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| Staff: Costau Gweithredu | | |
| Marchnata | 25.8 | 25.6 |
| Masnachol | 23.7 | 23.4 |
| Strategaeth a Chyfathrebu | 16.3 | 16.4 |
| Datblygu | 13.0 | 11.8 |
| Cyllid, Gwasanaethau Adnoddau a Swyddfa Weithredol | 22.2 | 24.2 |
| | 101.0 | 101.4 |
| Staff: Rhaglenni | 65.9 | 64.5 |
| Cyfanswm ar y gyflogres | 166.9 | 165.9 |

**COSTAU STAFF (PARHAD)**

**[b]** **YMRWYMIADAU PENSIWN**

Mae'r Bwrdd yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn Byrddau Croeso Prydain gan ddarparu buddion pensiwn ac yswiriant bywyd i bob aelod parhaol o'r staff. Mae'n gynllun buddion diffiniedig a ariannwyd, yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol. Delir yr Asedau gan y Cynllun Pensiwn o dan gontract cronni arian gyda'r Prudential Assurance Company Limited.

Mae'r cynllun yn gynllun buddion aml-gyflogai yn cynnwys byrddau croeso eraill ble mae cyfraniadau cyflogai wedi eu heffeithio gan warged neu ddiffyg yn y cynllun, ond mae pob cyflogwr yn methu adnabod ei gyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol ar sail gyson a rhesymol. O ganlyniad, mae'r Bwrdd wedi ateb ar gyfer ei gyfraniadau i'r cynllun fel pe bai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig yn unol â chanllaw Corff Cyhoeddus Anadrannol.

Mae Actwari'r Cynllun Pensiwn wedi cynnal prisiad interim at ddibenion y datgeliadau trosiannol. Roedd hyn yn seiliedig ar ddata aelodaeth ar 1 Ebrill 2003, a ddiweddarwyd i 31 Mawrth 2006.

Y tybiaethau a gaiff yr effaith fwyaf arwyddocaol ar ganlyniadau'r prisiad yw'r rheini sy'n ymwneud â'r gyfradd elw o fuddsoddi a'r cyfraddau cynnydd mewn cyflogau a'r pensiynau a delir. Tybiwyd ar gyfer y prisiad interim y byddai elw o fuddsoddi yn yr hirdymor yn 6.7% y flwyddyn; byddai cyflogau yn cynyddu 4.5% y flwyddyn ar gyfartaledd, a byddai pensiynau yn cynyddu mewn tâl 3.0% y flwyddyn.

Dangosodd prisiad interim 2006 mai gwerth asedau'r cynllun oedd £176.6 miliwn a bod gwerth actiwaraidd yr Asedau hynny yn cynrychioli 92.1% o'r buddion a oedd wedi cronni i'r aelodau bryd hynny, ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd disgwyliedig mewn enillion yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn 2.9% o'r cyflogau pensiynadwy oedd cyfraniad y Bwrdd tuag at y cynllun (2004/2005: 1% o gyflogau pensiynadwy). Cyfanswm cyfraniadau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd £109,000 (2004/2005: £37,000) ynghyd â chyfraniadau ychwanegol o £Dim (gweler Nodyn 6) i sicrhau buddion estynedig i staff yn ymddeol yn gynnar (2004/2005: £Dim).

Yn dilyn yr arolwg, mae'r Actwari wedi argymell cynnydd yng nghyfraniad cyflogwyr i gyfateb i 5.4% yn daladwy dros y 15 mlynedd yn dilyn y prisiad. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Cyfraniad |
|---|---|
| 2004/2005 | 1% |
| 2005/2006 | 2.9% |
| 2006/2007 | 4.8% |
| 2007/2008 ymlaen | 6.7% |

Mae darpariaeth wedi ei sefydlu yn y Cyfrifon hyn i adlewyrchu costau cronnol hawl pensiwn y dyfodol y Cadeirydd presennol (Nodyn 12b). Gan na fydd croniad o gyllid, os daw'r swydd i ben yn gynnar a bod angen trosglwyddo gwerth i gynllun arall, byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn talu'r costau os na fyddai gan y Bwrdd gronfeydd digonol.

**[c]** **TEITHIO A CHYNHALIAETH**

| | 2005/2006 | 2004/2005 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyflogeion y Bwrdd | 206 | 211 |
| Cadeirydd ac Aelodau eraill y Bwrdd | 44 | 33 |
| | 250 | 244 |

Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys adloniant busnes.

6. **TALIADAU GWEITHREDOL ERAILL**

| | 2005/2006 | 2004/2005 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |

| | | |
|---|---|---|
| Teithio a chynhaliaeth | 250 | 244 |
| Cydnabyddiaeth yr Archwilydd - | | |
| Ffi archwilio mewnol | 26 | 26 |
| Ffi archwilio allanol | 27 | 27 |
| Gwaith archwilio allanol arall | 15 | 37 |
| Gwariant gweinyddol arall | 1,495 | 1,476 |
| Marchnata | 15,258 | 14,655 |
| Masnachol | 3,485 | 3,827 |
| Strategaeth a Chyfathrebu | 1,279 | 1,053 |
| Datblygu | 1,064 | 780 |
| Cynnydd mewn darpariaeth dyledion drwg | 6 | - |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad | 145 | 166 |
| | 23,050 | 22,291 |

Yn gynwysedig yn yr uchod mae costau'r staff a secondiwyd, sef cyflogau, costau nawdd cymdeithasol, ymrwymiadau pensiwn a chostau asiantaeth gyflogi gwerth £1,712,000 (2004/2005:£1,721,000)

Roedd £9,629,000 o Daliadau Gweithredol Eraill yn berthnasol i brosiectau marchnata a ran-ariannwyd gan yr UE (2004/2005: £7,900,000)

## 7. CYMORTH RHANBARTHOL

Darparodd y Bwrdd y cymorth canlynol i gwmnïau am gyflwyno gwasanaethau i'r diwydiant twristiaeth ac i'r ymwelydd:-

| | 2005/2006 £000 | 2004/2005 £000 |
|---|---|---|
| Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru | 1,144 | 1,155 |
| Partneriaeth Twristiaeth – Canolbarth Cymru | 656 | 665 |
| Partneriaeth Twristiaeth De Orllewin Cymru | 882 | 875 |
| Uwch Ranbarth Twristiaeth | 818 | 805 |
| Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru | 200 | 200 |
| Cynghrair Twristiaeth Cymru | - | 25 |
| | 3,700 | 3,725 |

Yn gynwysedig yn yr uchod mae costau'r staff a secondiwyd sef, cyflogau, costau nawdd cymdeithasol ac ymrwymiadau pensiwn gwerth £122,000 (2004/2005: £114,000).

## 8. ASEDAU SEFYDLOG ANNIRWEDDOL

| | £000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 121 |

| | |
|---|---|
| Ychwanegiadau | 116 |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | 237 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 98 |
| Tâl am y flwyddyn | 57 |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | 155 |
| **Gwerth Llyfr Net** | |
| Ar 31 Mawrth 2006 | 82 |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 23 |

9. **ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL**

| | Tir ac Adeiladau | Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | Prydles Fer £000 | Swyddfa £000 | £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost a phrisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 87 | 1,034 | 1,121 |
| Ychwanegiadau | - | 60 | 60 |
| Gwarediadau a symiau a ddilëwyd | - | (179) | (179) |
| Addasiadau i'r ailbrisiadau | 3 | - | 3 |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | 90 | 915 | 1,005 |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 56 | 939 | 995 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 4 | 83 | 87 |
| Gwarediadau a symiau a ddilëwyd | - | (178) | (178) |
| Addasiadau i'r ailbrisiadau | (60) | - | (60) |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | - | 844 | 844 |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2006 | 90 | 71 | 161 |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 31 | 95 | 126 |

(i) Mae Tir ac Adeiladau yn cynrychioli eiddo ar Faes Sioe Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Llanelwedd.

Mae'r Cynulliad wedi datgan bod angen cynnwys tir ac adeiladau sydd ym meddiant llwyr neu rannol y Bwrdd yn y fantolen fel eu cost adnewyddu wedi'i ddibrisio. O ganlyniad, ar 31 Mawrth 2006, cafodd tir ac adeiladau'r Bwrdd eu prisio ar y sail honno gan briswyr annibynnol, sydd wedi'u cymhwyso i'r diben hwn ac yn unol â'r nodiadau cyfarwyddyd ar brisio asedau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Tirfesurwyr Siartredig.

Cwblhawyd y prisio gan Chancellors Associates Chartered Surveyors (RICS).

(ii) Gosodiadau a Ffitiadau yw'r rheini a geir ym mhrif swyddfeydd y Bwrdd Croeso ac Offer Swyddfa yw'r dodrefn swyddfa a'r cyfrifiaduron.

## 10. BENTHYCIADAU GWARANTEDIG A BENTHYCIADAU TYMOR HIR

| | 2006 £000 | 2005 £000 |
|---|---|---|
| Yn ddyledus ar 1 Ebrill | 133 | 144 |
| Ffioedd cyfreithiol wedi'u cyfalafu | 4 | - |
| Ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn | (3) | (11) |
| Benthyciadau a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn | (134) | - |
| Yn ddyledus ar 31 Mawrth | - | 133 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Amheus ar 1 Ebrill | 35 | 35 |
| Symudiad yn y ddarpariaeth | (35) | - |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Amheus ar 31 Mawrth | - | 35 |
| **Gwerth benthyciadau sy'n ddyledus ar 31 Mawrth** | - | 98 |
| Ad-daliadau benthyciadau mewn ôl-ddyledion ar 31 Mawrth | - | - |

Dim ond o fenthyciadau hirdymor a wnaed i Fwrdd Croeso Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y caiff benthyciadau gwarantedig eu dosbarthu. Cyfnod ad-dalu'r benthyciadau hyn yw 10 mlynedd.

## 11 DYLEDWYR A RHAGDALIADAU: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2006 £000 | 2005 £000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | 298 | 453 |
| Dyledwr Undeb Ewropeaidd | 4,062 | 3,776 |
| Dyledwyr eraill | 416 | 170 |
| Rhagdaliadau | 209 | 390 |
| Llog i'w dderbyn [Nodyn (i) isod] | - | 62 |
| Grantiau adenilladwy [Nodyn (ii) isod] | 20 | 11 |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus | (14) | (56) |
| Cyfanswm y Dyledwyr Masnach a Rhagdaliadau | 4,991 | 4,806 |
| Dadansoddiad o'r gweddill rhwng – | | |
| Cyrff eraill y llywodraeth | 4,179 | 3,929 |
| Awdurdodau lleol | 76 | 181 |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | 736 | 696 |
| | 4,991 | 4,806 |

(i) Llog i'w dderbyn

| | 2006 £000 | 2005 £000 |
|---|---|---|
| Dyledus ond heb ei dderbyn eto ar 1 Ebrill | 62 | 65 |
| Enillwyd yn ystod y flwyddyn | 2 | 6 |
| Swm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | (6) | (9) |
| Swm a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn | (58) | - |
| Dyledus ond heb ei dderbyn eto ar 31 Mawrth | - | 62 |

(ii) Grantiau adenilladwy

| | | |
|---|---|---|
| Grantiau dyledus adenilladwy ar 1 Ebrill | 11 | 14 |
| Grantiau a ddaw yn adenilladwy yn ystod y flwyddyn | 524 | 149 |
| Derbyniwyd yn ystod y flwyddyn | (498) | (152) |
| Dilëwyd | (17) | - |
| Grantiau dyledus yn adenilladwy ar 31 Mawrth | 20 | 11 |

12a **CREDYDWYR: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn**

| | 2006 £000 | 2005 £000 |
|---|---|---|
| Credydwyr Masnach | 4,134 | 3,234 |
| Incwm Gohiriedig | 1,152 | 481 |
| Trethiant a Chredydwyr Nawdd Cymdeithasol | 133 | 122 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 626 | 11,654 |
| Treth Gorfforaeth yn Daladwy | 37 | 35 |
| Credydwyr Eraill | 154 | 151 |
| Credydwyr Grant | 523 | - |
| Croniadau | 40 | 47 |
| | 6,799 | 15,724 |
| Dadansoddiad o'r gweddill rhwng – | | |
| Cyrff eraill y llywodraeth | 1,922 | 12,505 |
| Awdurdodau lleol | 27 | 59 |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | 4,850 | 3,160 |
| | 6,799 | 15,724 |

12b **DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A THALIADAU**

| | Darpariaeth ar gyfer costau ailstrwythuro yn dilyn uno £000 | Darpariaeth ar gyfer pensiwn y Cadeirydd presennol £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Gweddill ar 1 Ebrill 2005 | - | 61 | 61 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 83 | 27 | 110 |
| A ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | - | (10) | (10) |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2006 | 83 | 78 | 161 |

13. **CREDYDWYR: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn**

| | 2006 | 2005 |
|---|---|---|

| | £000 | £000 |
|---|---|---|
| Benthyciadau Hir Dymor – ad-daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Nodyn 10) | - | 98 |

## 14. YMRWYMIADAU A THREULIAU ANNISGWYL

Ar 31 Mawrth 2006 roedd y symiau canlynol yn ddyledus i'w talu:

| | (a) 2006 £000 | (b) 2006 £000 | (c) 2006 £000 | (a) 2005 £000 | (b) 2005 £000 | (c) 2005 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2005/2006 | - | - | - | 11,667 | 59 | 3,717 |
| 2006/2007 | 10,461 | 59 | 2,347 | 2,231 | 59 | 2,558 |
| 2007/2008 | 1,333 | 59 | 1,501 | - | 59 | 1,299 |
| 2008/2009 | - | 59 | 331 | - | 59 | 261 |
| 2009/2010 | - | 20 | 211 | - | 20 | - |
| | 11,794 | 197 | 4,390 | 13,898 | 256 | 7,835 |

(a) Benthyciadau a grantiau a gymeradwywyd o dan Ran 1 Deddf Datblygu Twristiaeth 1969.

(b) Symiau sy'n daladwy mewn perthynas ag Ystafell Lletygarwch yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd.

(c) Symiau sy'n daladwy mewn perthynas â chytundebau amrywiol.

Nid oes unrhyw ymrwymiadau na threuliau annisgwyl sy'n gysylltiedig â chyfnodau y tu hwnt i 2009/2010.

## 15. PRYDLESAU GWEITHREDOL

| | 2005/2006 £000 | 2004/2005 £000 |
|---|---|---|
| a) Mae ymrwymiadau blynyddol o dan brydlesau gweithredol fel a ganlyn: | | |
| Tir ac Adeiladau, gyda phrydlesau sy'n dod i ben: | | |
| o fewn blwyddyn | 2 | 5 |
| o fewn dwy i bum mlynedd yn gynhwysol | 465 | 467 |
| mewn mwy na phum mlynedd | 6 | 6 |
| | 473 | 478 |
| b) Rhenti prydles a gweithredol a godir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant | 473 | 478 |

## 16. YMRWYMIADAU CYFALAF

Ymrwymiadau cyfalaf: £Dim (2004/2005 £Dim)

17. **ARIAN YR UNDEB EWROPEAIDD**

Derbyniwyd incwm drwy gyfrwng grant oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006:

| | NODYN | 2005/2006 £000 | 2004/2005 £000 |
|---|---|---|---|
| Rhaglenni 2000 – 2006 - | | | |
| Rhaglenni datblygu – grantiau | 3 | 4,885 | 3,810 |
| Rhaglenni datblygu – refeniw | | 880 | 182 |
| Rhaglenni marchnata | | 5,430 | 3,882 |
| | | 11,195 | 7,874 |

18. **SAFON ADRODD CYLLIDOL RHIF 13: TARDDIADAU AC OFFERYNNAU CYLLIDOL ERAILL**

Nid oes gan Fwrdd Croeso Cymru unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ei anghenion ariannol, ac felly nid ydyw mewn perygl o risg hylifedd. Nid oes ganddo ychwaith unrhyw adnau materol ac roedd pob ased materol a rhwymedigaeth mewn sterling, felly nid ydoedd mewn perygl o risg cyfradd llog neu risg arian treigl.

19. **NODIADAU I'R DATGANIAD LLIF ARIAN**

| **Cysoni Gwarged(Diffyg) Gweithredol i'r mewnlif(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredol** | NODIADAU | 2005/2006 £000 | 2004/2005 £000 |
|---|---|---|---|
| Gwarged(diffyg) gweithredol | | 47 | (1631) |
| (Cynnydd)/lleihad mewn dyledwyr | | (185) | 591 |
| (Cynnydd)/lleihad mewn credydwyr | | (8,925) | 6,481 |
| Symudiad yn y ddarpariaeth | | 58 | (58) |
| Dibrisiant asedau sefydlog diriaethol | 9 | 87 | 137 |
| Amorteiddiad sef asedau sefydlog diriaethol | 8 | 57 | 29 |
| Rhyddhad o gronfa grant wrth gefn y llywodraeth | 2b | (145) | (167) |
| Colled ar waredu asedau sefydlog | | - | (1) |
| Tâl tybiannol cost cyfalaf | | (55) | (30) |
| Mewnlif (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredol | | (9,061) | 5,351 |

**Elw ar Fuddsoddiad a gwasanaethu cyllid**

| | | |
|---|---|---|
| Llog a dderbyniwyd | 214 | 187 |
| Llog a dalwyd | (136) | (168) |
| | 78 | 19 |

**Trethiant**

| | | |
|---|---|---|
| Treth a dalwyd | (35) | (18) |

**Gwariant Cyfalaf**

| | | |
|---|---|---|
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | (60) | (77) |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog annirweddol | (116) | (14) |
| | (176) | (91) |

**Ariannu**

| | | |
|---|---|---|
| Grant gohiriedig y llywodraeth a dderbyniwyd | 176 | 91 |

**Cysoni llif arian parod net i symudiad yn y cronfeydd net**

| | | |
|---|---|---|
| (Lleihad)/Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod | (9,018) | 5,352 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | 9,224 | 3,872 |
| Cronfeydd net ar 31 Mawrth | 206 | 9,224 |

20. **CYSONI SYMUDIAD YNG NGHRONFEYDD Y LLYWODRAETH**

| | Cyfrif Incwm a Gwariant £000 | Cronfa Grant y Llywodraeth £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Diffyg am y flwyddyn | (8) | - | (8) |
| Symudiad yng ngrant gohiriedig y llywodraeth | - | 94 | 94 |
| Symudiad yng nghronfeydd y llywodraeth yn y flwyddyn | (8) | 94 | (86) |
| Cronfeydd y llywodraeth ar 1 Ebrill | (1,755) | 149 | (1606) |
| Cronfeydd y llywodraeth ar 31 Mawrth | (1,763) | 243 | (1,520) |

## 21. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Roedd Bwrdd Croeso Cymru yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) a noddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ystyriwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, bu amryw o drafodion perthnasol rhwng Bwrdd Croeso Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a chydag endidau eraill y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ystyried yn Rhiant-Adran iddynt, sef Awdurdod Datblygu Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.

Yn ogystal, bu nifer fechan o drafodion perthnasol rhwng Bwrdd Croeso Cymru ac Adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn â VisitBritain.

Heblaw'r canlynol, nid oedd un o aelodau'r bwrdd, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodaethau perthnasol â Bwrdd Croeso Cymru yn ystod y flwyddyn:

Mae Christine Lewis, Aelod o Fwrdd y Bwrdd Croeso, yn gysylltiedig â'r sefydliadau canlynol a dderbyniodd gymorth ariannol gan y Bwrdd Croeso fel y nodir isod:

| | 2005/2006 | 2004/2005 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Canolfan Mileniwm Cymru | 509,613 | £Dim |

## 22. UNO GYDA LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

Fel y cyfeiriwyd ar dudalen 1 yr Adroddiad Blynyddol, ar 14 Gorffennaf 2004 cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y penderfyniad i ymgorffori gwaith y Bwrdd yn uniongyrchol i Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau Llywodraeth Cynulliad Cymru o 1 Ebrill 2006.

Mae cyfanswm y costau a dalwyd gan y Bwrdd hyd at 31 Mawrth 2006 a chostau'r dyfodol sydd wedi'u rhagweld i'r Cynulliad mewn perthynas â gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag uno'r hen Fwrdd Croeso wedi'u nodi isod.

| | Costau Gwirioneddol hyd 31/3/06 | Costau'r Dyfodol | Cyfanswm Costau |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Costau TG * | 96,000 | - | 96,000 |
| Costau Staff – Costau Uniongyrchol | 14,000 | - | 14,000 |
| Costau Ailstrwythuro | - | 83,000 | 83,000 |
| | 110,000 | 83,000 | 193,000 |

* cafodd y costau hyn eu had-dalu'n llawn gan y Cynulliad yn 2005/06.

Ac eithrio'r costau a nodwyd uchod ar gyfer y dyfodol, ni wyddir am unrhyw gostau eraill ac felly nid ydynt wedi'u darparu gyda'r Cyfrifon hyn.